DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR WRTH RHYDLAFAR DRIVE, SAIN FFAGAN, CAERDYDD) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 5 Hydref 2021 o dan y cyfeirnod 20/02634/MNR a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir wrth Rhydlafar Drive, Sain Ffagan, Caerdydd) 2022 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd, Yr Aes, Caerdydd CF10 1FL neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1479133.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 4 Mai 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT RHYDLAFAR DRIVE, ST FAGANS, CARDIFF) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 5 October 2021 with reference number 20/02634/MNR described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Land at Rhydlafar Drive, St Fagans, Cardiff) Order 2022 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Cardiff Central Library, The Hays, Cardiff CF10 1FL or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1479133.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 4 May 2022 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r gyffordd o'r A4119 Llantrisant Road sy'n arwain at Rhydlafar Drive, Caerdydd, sy'n gyfanswm o 3367 o fetrau sgwâr, ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Adeiladu Canolfan Feddygol 2 lawr newydd, Fferyllfa, parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway located to the east of the junction from the A4119 Llantrisant Road leading to Rhydlafar Drive, Cardiff, for a total area of 3367 square metres, and as shown on the deposited plan by zebra hatching.

SCHEDULE 2

The Development

Construction of a new 2 storey Medical Centre, Pharmacy, parking, landscaping and associated works.